Gyn'lleidfa gariadus, cydganwn fawl felys
Ag odlau soniarus, daionus, i Dduw;
O'i gariad tragwyddol, trwy Grist y maen bywiol,
Esgorodd ffordd rasol i'w bobol gael byw:
Trwy rinwedd ei ras, yn wyneb ei was,
Y cofiodd blant gorthrwm y codwm du, cas;
A heddiw'n ddi-wad, 'nôl cyngor y Tad,
Esgorodd trugaredd y rhyfedd Fab rhad.

Cymerodd y Duwdod, yn sylwedd dibechod,
Ein natur, sef dyndod, yn gysgod i'r gair,
Trwy'r Ysbryd sancteiddiol y ffrydiodd corff dynol
I'w berson anfeidrol, ym meidrol groth Mair;
A'r hynod Fair hon esgorodd yn llon
Ei Thad a'i Chreawdwr, gwir Brynwr ger bron!
Nid gorwych lys rhi, llon, prydferth, llawn bri,
Ond preseb iselgor i'w esgor gadd hi!

Etifedd coronau, cynhaliwr unbennau,
Gan Mair ar ei gliniau, mewn bratiau di-bris,
Creawdwr yr hollfyd mewn preseb a anwyd,
Pa Lasarus gornwydlyd a welwyd yn is?
Teilyngdod pob bri tan w'radwydd a chri,
Er prynu goludoedd y nefoedd i ni;
Gan gyfrif Duw Cun, i'w berson ei hun,
Hyn oll er ein gwared oedd ddyled ar ddyn.